# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd John C. Spanswick**


**Ward: Canol Gorllewin Bracla**

**Plaid: Llafur Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**

Cefais fy ethol yn wreiddiol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli ward Bracla ym mis Mai 1999. Yn yr etholiadau diwethaf ym mis Mai 2022 yn dilyn adolygiad o ffiniau wardiau BCBC, bu newid ym Mracla i greu wardiau llai o fewn yr ardal ac felly rwyf bellach yn cynrychioli ward Canol Gorllewin Bracla (gweler y map isod).




Cefais wahoddiad i ymuno â'r cabinet ym mis Mai 2022 fel yr Aelod Cabinet dros Gymunedau gyda phortffolio sy'n cwmpasu meysydd megis gwastraff, glanhau strydoedd, parciau, mynwentydd, cynllunio, cefn gwlad, bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd, trafnidiaeth a phriffyrdd.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi nifer o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys ac rwyf bob amser yn ymdrechu i ymateb o fewn amserlen resymol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddefnyddio'r ddolen hon.
[Manylion Cynghorydd - Cynghorydd John Spanswick - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr]

**<u>Gweithgarwch yn yr Etholaeth</u>**

Nid wyf wedi trefnu unrhyw gymorthfeydd dros y flwyddyn ddiwethaf gan fy mod yn tueddu i ganfod y byddai'n well gan drigolion gysylltu'n uniongyrchol dros y ffôn, drwy e-bost ac yn gynyddol ar gyfryngau cymdeithasol ond rwy'n barod i ystyried cynnal cymorthfeydd yn y dyfodol pe bai'r galw'n codi. Cefais fy ethol hefyd i Gyngor Cymuned Bracla ym mis Mai 2022 ar gyfer ward Gorllewin Bracla a dyma fy 30ain flwyddyn fel Cynghorydd Cymuned Bracla. Er bod yr ardal yr wyf yn ei chynrychioli wedi'i lleihau i un ward yn unig allan o bedair ym Mracla, rwyf wedi sicrhau fy mod ar gael ledled Bracla o hyd gan weithio gyda fy nghyd-gynghorwyr ward sy'n cynrychioli tair ward arall Bracla. Rwyf wedi gyrru o amgylch Bracla yn rheolaidd gan nodi unrhyw faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy a'u cyflwyno'n brydlon fel atgyfeiriad i BCBC i weithredu arnynt fel y bo'n briodol.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Dechreuodd y Cyngor Cymuned ailgyflwyno gweithgareddau a oedd wedi cael eu hoedi yn ystod Covid ac roeddwn yn falch o helpu gyda Diwrnod Hwyl Bracla ym mis Mehefin a'r arddangosfa Tân Gwyllt ym mis Tachwedd. Ymddengys fod y digwyddiadau hyn yn cael eu gwerthfawrogi gan y gymuned a chawsant eu hariannu'n llawn gan Gyngor Cymuned Bracla.
Roeddwn yn falch o fod yn rhan o'r cynllun a gyflwynodd blannu coed a dolydd blodau gwyllt i'r man agored yn The Chase/Foxfields ac er y gwerthfawrogir nad oedd yr holl drigolion yn croesawu hyn, rwy'n obeithiol gydag amser y bydd yr ardal hon yn tyfu i fod yn ardal hoffus, werdd gyda phawb yn ei pharchu a'i fwynhau.
Gan weithio gyda fy nghyd-Gynghorwyr ward rwyf wedi parhau â'r alwad am weithredu ar gyffordd Singleton ac wedi cael trafodaethau cychwynnol gyda swyddogion BCBC am gynllun addas i'w ddylunio i wneud yr ardal yn fwy diogel i bawb.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwyf wedi cysylltu â datblygwyr sy'n gyfrifol am rai o'r meysydd parcio preifat ym Mracla ac wedi llwyddo i'w cael i dderbyn cyfrifoldeb am un maes a byddaf yn parhau â'r gwaith hwn i geisio cynnal mwy o'r meysydd hyn.
Ym mis Ionawr eleni, ystyriwyd y byddai'r parc sglefrio ger Ysgol Gynradd Bracla yn aneconomaidd i'w atgyweirio ac wedi hynny, cafwyd wared arno a llwyddais i sicrhau cyllid i gael un newydd yn ei le yn ddiweddarach yn 2023. Ynghyd â hyn, gofynnais i'r cwrt pêl-fasged gael ei adnewyddu ynghyd â'r ardal chwarae nesaf iddo.

**Cynghorydd : John C. Spanswick** **Dyddiad: 21 Mehefin 2023**